Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol

# Canllawiau perfformiad

## ar gyfer ysgolion yng Nghymru a Lloegr

Mae gan ysgolion a gynhelir ddyletswydd gyffredinol statudol i weithio i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da. Nid yw'r ddyletswydd yn fater o ddewis ac mae'n rhaid i ysgolion ei bodloni, hyd yn oed os mai ychydig iawn o fyfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd ganddynt.

Mae gan ysgolion rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd yng nghymdeithas amrywiol ac aml-hiliol Prydain. Mae patrymau gwaith sy'n newid, technolegau newydd, a mwy o symudoledd yn golygu bod pobl, yn ystod eu hoes, yn debygol o ddod ar draws llawer o ddiwylliannau a chefndiroedd gwahanol, lle bynnag y maent yn byw.

Mae'r daflen hon yn disgrifio'r prif ganlyniadau a fydd yn nodweddu ysgol sy'n cyflawni ei dyletswydd yn dda. Mae hefyd yn amlinellu rhai o'r ffyrdd y gall ysgol ddangos ei bod yn cyflawni'r ddyletswydd hon.

Cynhyrchwyd y daflen hon ar gyfer amrediad eang o unigolion a chyrff, yn ogystal ag ysgolion. Er enghraifft, dylai disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, a'r cyhoedd ei gweld yn ddefnyddiol os dymunant wybod pa mor dda y mae ysgol yn cyflawni ei dyletswydd. Bydd athrawon, staff cefnogi, a llywodraethwyr yn gallu defnyddio'r daflen i weld a yw eu gwaith hwy, a gwaith yr ysgol yn gyffredinol, yn cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Gall awdurdodau addysg lleol weld a yw'r ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt yn cyflawni'r ddyletswydd. Bydd arolygwyr OFSTED yn Lloegr, arolygwyr Estyn yng Nghymru, a'r CRE yn gallu defnyddio'r daflen hon fel canllaw i'r perfformiad y gallant ei ddisgwyl gan ysgolion sy'n cyflawni'r ddyletswyddau. Mae'r rhan fwyaf o'r canlyniadau a'r gweithgareddau a restrwn yma yn debygol o gael eu cynnwys ym mholisi cydraddoldeb hiliol ysgol (a all amrywio o un ysgol i'r llall).

Nid oes gan y daflen hon rym statudol. Bwriedir iddi fod yn ganllaw cryno i'r perfformiad y dylai ysgolion anelu ato i gyflawni'r ddyletswydd. Argymhellwn eu bod hefyd yn defnyddio'r *Côd Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol* (dogfen statudol sy'n rhoi arweiniad ynghylch bodloni'r dyletswyddau cyhoeddus newydd) *a'r Canllaw i Ysgolion* (dogfen anstatudol sy'n cynnwys cyngor ac enghreifftiau ymarferol) i ddatblygu strategaethau llawn ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Mae gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael hefyd ar ein gwefan, www.cre.gov.uk

COMISIWN
CYDRADDOLDEB
HILIOL

# Canlyniadau cyflawni'r ddyletswydd

## Bodlondeb ymysg disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid

- Mae disgyblion, rhieni, a gwarcheidwaid o bob cefndir ethnig yr un mor fodlon â'i gilydd gyda'r ysgol.
- Dywed disgyblion, rhieni, a gwarcheidwaid o bob cefndir ethnig eu bod yn ymddiried yn yr ysgol, a bod ganddynt hyder yn y modd y mae'n cael ei chynnal.
- Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn uchel, gyda disgyblion o bob cefndir ethnig yn cyflawni eu potensial yn llawn.
- Mae'r ysgol yn bodloni amrywiaeth eang o anghenion drwy gyfrwng gwasanaethau a pholisïau hyblyg sydd wedi eu dylunio'n dda.
- Mae lefel gyffredinol y cwynion yn isel, ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau ethnig o ran cwynion ynghylch derbyn, y cwricwlwm, addysgu, ymddygiad, gwaharddiad, asesu, a chefnogaeth.
- Mae cofrestr yr ysgol yn adlewyrchu cefndiroedd ethnig y cymunedau y mae yn eu gwasanaethu.
- Mae rheini a gwarcheidwaid o bob cefndir ethnig a gynrychiolir yn yr ysgol yn mynychu nosweithiau rheini, ac yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, gweithgareddau ysgol, a digwyddiadau arbennig a drefnir ar eu cyfer.
- Mae'r ysgol yn gwneud penderfyniadau yn agored, ac mae'n atebol i rieni a gwarcheidwaid, ac i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
- Mae cynnwys y cwricwlwm yn cyfrannu at werthfawrogiad o amrywiaeth diwylliannol, ac yn cynorthwyo disgyblion i adnabod a herio rhagfarn, tuedd, a stereoteipio.
- Mae disgyblion, rheini, a gwarcheidwaid yn deall ac yn cefnogi nodau a gwerthoedd yr ysgol o ran cydraddoldeb hiliol.
- Nid yw'r ysgol yn gwahardd llawer o ddisgyblion ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau gwahardd rhwng grwpiau ethnig.
- Mae'r ysgol yn boblogaidd ac mae ganddi enw da yn y gymuned.

## Bodlondeb ymysg staff a llywodraethwyr

- Mae staff o bob cefndir ethnig – rhai sy'n addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu – yn fodlon gyda'r modd y mae'r ysgol yn cael ei chynnal.
- Mae'r staff nad ydynt yn addysgu a'r staff cynnal yn gynrychioliadol o'r grwpiau ethnig gwahanol yn y cymunedau y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu.
- Mae'r ysgol a'i llywodraethwyr yn chwarae rhan weithredol yng nghynlluniau gwaith yr awdurdod addysg lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau i ddenu pobl o leiafrifoedd ethnig i'r proffesiwn dysgu, a chamau i wella datblygiad gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dyrchafiad i athrawon o leiafrifoedd ethnig.
- Teimla athrawon, a staff yr ysgol nad ydynt yn athrawon, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol.
- Mae'r llywodraethwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd newydd ac maent yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau cymunedol da.
- Mae llywodraethwyr yr ysgol yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'r ysgol yn eu gwasanaethau, ac mae llywodraethwyr o leiafrifoedd ethnig yr un mor debygol â llywodraethwyr eraill o aros yn yr ysgol.

## Parch a chydnabyddiaeth

- Caiff yr ysgol ei pharchu am ei hymrwymiad i – a'i llwyddiant o ran – hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda chyrff eraill, gan gynnwys cyrff cymunedol lleiafrifoedd ethnig, a gall ddibynnu arnynt am arbenigedd a chefnogaeth.

# Tystiolaeth o gyflawni'r ddyletswydd

## Arweiniad

Mae arweiniad cryf yn hanfodol os yw ysgolion i fodloni'r ddyletswydd newydd. Bydd ysgol sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da yn effeithiol yn gallu dangos y canlynol.

- Mae staff uwch a llywodraethwyr yn arwain yn bendant ac yn gadarn ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.
- Mae'r ysgol wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i ymdrin â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, a chysylltiadau hiliol da yn ei holl weithgareddau.
- Mae staff uwch a llywodraethwyr yn deall egwyddorion hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Gofalant fod yr egwyddorion hyn yn llywio holl agweddau gwaith yr ysgol.
- Caiff pobl o leiafrifoedd ethnig eu cynrychioli'n dda ar fwrdd llywodraethwyr yr ysgol. Maent yn chwarae rhan weithredol ym mhob maes, ac nid ydynt yn cael eu gwthio i'r ymylon, ac ni ddisgwylir iddynt ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn unig.

## Gwasanaethau a pholisïau

Amcan y ddyletswydd gyffredinol yw gwneud cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r modd y mae ysgolion yn gweithio. Dylai gwasanaethau, polisïau, a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd adlewyrchu hyn. Bydd ysgol lwyddiannus yn gallu dangos y canlynol.

**Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol.**

- Mae'r ysgol wedi cynhyrchu polisi cydraddoldeb hiliol, ac yn ei roi ar waith.
- Mae'r polisi yn cynnwys ymrwymiad i ymdrin â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da, a strategaeth ar gyfer gwneud hyn yn effeithiol.
- Cysylltir y polisi â chynllun gweithredu strategol (neu gynllun datblygu ysgol), sy'n cynnwys targedau ar gyfer cyflawni cydraddoldeb hiliol.
- Mae'r ysgol yn adolygu'r cynllun gweithredu a'i dargedau yn rheolaidd, ac yn diwygio'r polisi pan fo angen.
- Mae penaethiaid pwnc a blwyddyn yn rhoi ystyriaeth i'r polisi cydraddoldeb hiliol yn eu datganiadau polisi unigol.

**Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau i asesu effeithiau ei pholisïau (gan gynnwys ei pholisi cydraddoldeb hiliol) ar ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, a staff o bob grŵp ethnig.**

- Mae'r ysgol yn asesu effeithiau ei pholisïau yn ystod pob cam.
- Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i bolisïau sy'n effeithio ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.
- Mae'r ysgol yn gwahodd rhieni, gwarcheidwaid, disgyblion, a staff i roi sylwadau ar ei pholisïau, ac ar y modd y maent yn gweithio, fel rhan o'i hasesiadau. Mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid, disgyblion, a staff o leiafrifoedd ethnig ynghlwm wrth hyn. Mae'r ysgol yn defnyddio'r sylwadau hyn i adolygu a gwella ei pholisïau.

**Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau i fonitro effeithiau ei pholisïau (gan gynnwys ei pholisi cydraddoldeb hiliol) ar ddisgyblion, staff, rhieni, a gwarcheidwaid o bob grŵp ethnig, ac i gyhoeddi'r canlyniadau bob blwyddyn.**

- Mae'r ysgol yn defnyddio ei threfniadau a'i systemau presennol i fonitro ei pholisïau.
- Mae'r ysgol yn dadansoddi ei data monitro i weld a yw ei pholisïau yn effeithio'n anghyfartal ar ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, a staff o wahanol grwpiau ethnig.

- Mae'r ysgol yn rhoi sylw arbennig i bolisïau monitro sy'n effeithio ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

- Mae'r ysgol yn defnyddio ei data monitro i adolygu ei thargedau a diwygio ei pholisïau, pan fo angen.

- Mae'r ysgol yn cyhoeddi canlyniadau ei monitro bob blwyddyn, er enghraifft yng nghylchgrawn yr ysgol.

**Mae'r ysgol wedi gosod amcanion uchel o ran cydraddoldeb hiliol ar gyfer yr holl waith a wna mewn partneriaeth ag eraill.**

- Mae'r ysgol yn hysbysu cyrff y mae'n cydweithio â hwy ei bod yn bwriadu gweithio yn unol ag egwyddorion y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

- Mae'r ysgol yn perswadio ei phartneriaid i fabwysiadu'r egwyddorion hyn fel egwyddorion i lywio gweithgareddau'r bartneriaeth.

## Cyflogaeth

**Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i hyfforddi ei staff a'i llywodraethwyr i gyd ynghylch eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.**

- Mae staff a llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn derbyn hyfforddiant ynghylch y ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswyddau penodol.

- Mae'r staff a'r llywodraethwyr i gyd yn derbyn hyfforddiant ynghylch sut i atal gwahaniaethu, annog parch tuag at bobl – beth bynnag yw eu cefndir – a hyrwyddo cysylltiadau da rhyngddynt.

- Mae'r ysgol wedi sefydlu systemau cefnogi i gynorthwyo ei staff a'i llywodraethwyr i gyflawni'r ddyletswydd.

**Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth fonitro am ei staff addysgu i'r Awdurdod Addysg Lleol.**

- Mae'r ysgol yn defnyddio ei systemau gweinyddol a gwybodaeth cyfredol i gasglu data monitro y mae ar yr Awdurdod Addysg Lleol ei angen i gyflawni ei ddyletswydd.

- Mae'r ysgol yn monitro cefndiroedd ethnig ei holl staff, a'r holl geisiadau am swyddi, hyfforddiant, a dyrchafiad.

- Oherwydd bod gan yr ysgol fwy na 150 o staff amser llawn, mae hefyd yn monitro nifer y staff o bob grŵp ethnig sydd:
  - yn derbyn hyfforddiant;
  - yn manteisio neu yn dioddef anfantais o asesiadau perfformiad;
  - yn ymwneud â chwynion neu weithredu disgyblaethol; neu
  - yn dirwyn eu cyflogaeth gyda'r ysgol i ben.

- Mae gweithlu'r ysgol – sy'n addysgu a heb fod yn addysgu – yn gynrychioliadol, ar bob lefel, o'r cymunedau a wasanaetha.


**Archebwch gopïau o'r côd a'r canllawiau oddi wrth TSO**

**Ar-lein**
Ymwelwch â
**www.tso.co.uk/booskhop**

**Ar y ffôn**
Galwch **0870 240 3697**
(Ffôn testun **0870 240 3701)**

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL


© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Elliot House, 10-12 Allington Street, Llundain SW1E 5EH
Cyhoeddwyd Mehefin 2002. ISBN 1 85442 481 5